



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

GIG Cymru

Fframwaith

Cymhwysedd

Cynllunio'r gweithlu



Tudalen gynnwys

1. Pwrpas a chefnidir.....	3
2. Defnyddio'r Fframwaith	4
3. Cydrannau'r Fframwaith.....	5
3. Cymwyseddau.....	8
4. Cysylltu â ni.....	23



1. Pwrpas a chefnidir

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Cynllunio'r Gweithlu yn amlinellu'r cymhwyseddau sydd eu hangen ar gyfer cynllunio'r gweithlu ar gyfer gwahanol fathau o swyddi o fewn GIG Cymru. Gellir defnyddio'r ddogfen ar y cyd ag Offeryn Hunanasesu Gallu Cynllunio'r Gweithlu GIG Cymru i nodi'r sgiliau a'r cymhwyseddau sy'n berthnasol i'ch rôl i gefnogi datblygiad personol.

Beth yw pwrpas Proffil Cymhwysedd Cynllunio'r Gweithlu?

- Darparu fframwaith cynhwysol sy'n disgrifio'r sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i gefnogi cynllunio'r gweithlu effeithiol ar gyfer gwahanol fathau o swyddi yn y GIG yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol.
- Helpu i feithrin gallu mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu ar draws GIG Cymru.

Ar gyfer pwy y cafodd ei gynllunio?

- Y rhai sy'n ymgymryd â rôl cynllunio'r gweithlu, neu'r rhai sy'n dymuno datblygu gyrfa ym maes cynllunio'r gweithlu.
- Unigolion sy'n ymgymryd â chynllunio'r gweithlu o fewn eu rolau ar hyn o bryd - i gefnogi eu dysgu, datblygiad a thwf parhaus.

Sut cafodd ei ddatblygu?

- Datblygwyd proffil cymhwysedd cynllunio'r gweithlu drwy ymgysylltu a chydweithio â:
 - Rhwydwaith Cynllunio'r Gweithlu GIG Cymru
 - Ystod eang o gydweithwyr ar draws Cymuned Datblygu'r Gweithlu neu Ddatblygu Sefydliadol (WOD) yn GIG Cymru
 - Arbenigwyr mewn Cynllunio'r Gweithlu Strategol.
- Darparodd y grwpiau gwahanol hyn wybodaeth am y gofynion presennol ac yn y dyfodol ar gyfer cynllunio'r gweithlu i gefnogi meithrin gallu mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu ar draws GIG Cymru.
- Adolygiad cynhwysfawr o Gymwyseddau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu a fframweithiau presennol ar draws y sbectrwm ehangach o gymwyseddau sydd eu hangen i gefnogi cynllunio'r gweithlu effeithiol. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn i sicrhau bod fframwaith cymhwysedd cynllunio'r gweithlu wedi'i alinio â llwybrau dysgu perthnasol eraill. Roedd yr adolygiad yn cynnwys Egwyddorion Arwain Tosturiol GIG Cymru, Proffesiwn Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)/WOD, Fframwaith Ymarfer Estynedig, Uwch a Chlinigol Cymru ac Academi Gwelliant Cymru. Roedd y rhain ochr yn ochr â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ehangach a Sgiliau ar gyfer Cymwyseddau Cynllunio'r Gweithlu lechyd er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn cael ei ategu gan y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r datblygiad cymhwysedd ehangach i gefnogi cynllunio'r gweithlu effeithiol (gweler y cyfeiriadau ar ddiwedd y ddogfen hon).

2. Defnyddio'r Fframwaith

Gellir defnyddio'r fframwaith i gefnogi unigolion ar wahanol adegau yn eu gyrfa fel cynlluniwr gweithlu neu'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu. Bwriedir iddo hefyd fod yn sail i'r dull cenedlaethol o gynllunio'r gweithlu yn GIG Cymru.

Sut gall y fframwaith fy helpu fel unigolyn?

- Os ydych yn ystyried rôl mewn cynllunio'r gweithlu – gall y fframwaith eich helpu i fesur eich gallu a'ch profiad presennol yn erbyn yr hyn sydd ei angen i weithredu ar lefel uwch a lle y gallech ddewis canolbwyntio eich datblygiad.
- Os ydych yn gweithredu fel cynlluniwr gweithlu – gall y fframwaith eich helpu i adolygu eich effeithiolrwydd presennol ac i ddefnyddio dull wedi'i dargedu'n well i gynyddu eich gallu.
- Os ydych yn cynllunio'r gweithlu fel rhan o'ch rôl gallwch nodi meysydd i'w datblygu ymhellach i'ch cefnogi, yn eich rôl a'ch Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Sut gall y fframwaith fy helpu i arwain eraill wrth gynllunio'r gweithlu?

- Os ydych yn arwain y gwaith o gynllunio'r gweithlu, gall eich helpu i fapio'r lefelau sgiliau presennol i nodi bylchau posibl yng ngalluoedd unigolion/timau i gefnogi'r cynllun datblygu ar gyfer cynyddu gallu i gynllunio'r gweithlu.

Sut mae'r fframwaith yn sail i ddull gweithredu cenedlaethol?

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i'w gymhwyso i amrywiaeth o rolau gwahanol. Mae'n darparu sylfaen sy'n cefnogi meithrin gallu mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu yng nghyd-destun dull GIG Cymru o gynllunio'r gweithlu.

Bwriad y fframwaith yw cefnogi ac alinio â'r gwahanol fathau o rolau a lefelau a grynhoir yn y tabl a welir trosodd. Mae'n darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n ystyried gyrfa ym maes cynllunio'r gweithlu yn ogystal â darparu fframwaith cynhwysfawr i gefnogi datblygiad sgiliau gallu cynllunio'r gweithlu ar wahanol lefelau.

3. Cydrannau'r Fframwaith

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bedair lefel wahanol o rolau cynllunio'r gweithlu, sef fel a ganlyn:

Lefel a Rolau swydd enghreifftiol *	Enghreifftiau o'r math o dasgau a gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chynllunio'r gweithlu ar bob lefel **. * Enghreifftiau yn unig yw'r rhain gan y gall rolau/teitlau Swyddi, tasgau a gweithgareddau amrywio ar draws sefydliadau
Sylfaen Rolau Swydd Enghreifftiol:- Y rhai sy'n cefnogi neu'n ymgymryd â chynllunio'r gweithlu o fewn eu rôl e.e., Rheolwr Gwasanaeth, Cynghorydd AD, Cynlluniwr Prosiect	• Cychwyn tasgau a phrosesau gan gymryd cyfrifoldeb lle bo'n berthnasol wrth gefnogi datblygiad cynllun gweithlu o fewn ei faes ei hun. • Dangos dealltwriaeth a gwybodaeth o'r broses cynllunio'r gweithlu, o fewn eu maes arbenigedd eu hunain. • Nodi a datblygu perthnasoedd effeithiol gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynllun gweithlu. • Nodi a defnyddio ystod o wybodaeth i gefnogi datblygiad cynllun gweithlu. • Nodi ffactorau a all effeithio ar y gwasanaeth a'r gweithlu o fewn ei faes arbenigedd ei hun. • Nodi meysydd i'w gwella sy'n cefnogi cynllunio'r gweithlu o fewn ei faes arbenigedd ei hun. • Nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella trwy gydweithio ag eraill o fewn ei faes arbenigedd ei hun. • Ysgogi newid trwy gynllunio'r gweithlu o fewn ei faes arbenigedd ei hun.
Canolradd Rolau Swydd Enghreifftiol:- Y rhai sy'n ymarfer, neu'n rheoli cynllunio'r gweithlu mewn adran neu wasanaeth e.e., Cynlluniwr Gweithlu, Rheolwr Cynllunio'r Gweithlu, Partner Busnes	• Cychwyn a rheoli tasgau a phrosesau gan gymryd cyfrifoldeb lle bo'n berthnasol am waith a rolau eraill wrth ddatblygu cynllun gweithlu. • Dangos lefel well o ddealltwriaeth, gwybodaeth a chymhwysiad o'r broses cynllunio'r gweithlu o fewn y sefydliad. • Nodi rhanddeiliaid a'u dylanwad wrth ddatblygu cynllun gweithlu a datblygu perthynas gydweithredol effeithiol â nhw. • Nodi a defnyddio ystod o wybodaeth i lywio datblygiad cynllun gweithlu. • Nodi a gwerthuso'r grymoedd ar gyfer newid a allai effeithio ar y gweithlu yn y tymor canolig. • Nodi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu ac amcanion strategol y sefydliad. • Arwain/rheoli prosiect ar ddatblygu cynllun gweithlu tymor canolig i weithredu newid neu welliant gwasanaeth o fewn ei faes ei hun. • Dylanwadu ar wella gwasanaethau trwy rannu arfer da.

Lefel a Rolau swydd enghreifftiol *	Enghreifftiau o'r math o dasgau a gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chynllunio'r gweithlu ar bob lefel *. * Enghreifftiau yn unig yw'r rhain gan y gall rolau/teitlau Swyddi, tasgau a gweithgareddau amrywio ar draws sefydliadau
Ymarferydd Rolau Swydd Enghreifftiol:- Y rhai sy'n ymarfer ac sydd â chyfrifoldeb neu rolau arwain i gefnogi cynllunio'r gweithlu mewn sefydliad e.e., Uwch Reolwr Cynllunio'r Gweithlu, Pennaeth Cynllunio'r Gweithlu	• Cychwyn a darparu arweiniad/cyfarwyddyd ar gyfer tasgau a phrosesau cymhleth yng nghyd-destun datblygu cynllun gweithlu. • Dangos dealltwriaeth, gwybodaeth a chymhwysiad uwch o'r broses cynllunio'r gweithlu o fewn y sefydliad. • Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ehangach ym maes Cynllunio'r Gweithlu ac annog eraill i feithrin gallu ym maes Sgiliau Cynllunio'r Gweithlu. • Nodi rhanddeiliaid, eu dylanwad a dadansoddi eu hanghenion cyfathrebu wrth ddatblygu cynllun gweithlu. • Dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth gymhleth yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu. • Nodi a gwerthuso'r grymoedd ar gyfer newid a allai effeithio ar y gweithlu yn y tymor hir a datblygu atebion i fynd i'r afael â hwy. • Nodi a dadansoddi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu strategol a strategaeth ac amcanion y sefydliad. • Rhoi arweiniad ar ddatblygu a gweithredu cynllun gweithlu yn y tymor hwy i weithredu newid neu wella gwasanaethau. • Dylanwadu ar wella gwasanaethau trwy fonitro tueddiadau, meincnodi a nodi a rhannu arfer da.

Lefel a Rolau swydd enghreifftiol *	Enghreifftiau o'r math o dasgau a gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chynllunio'r gweithlu ar bob lefel *. * Enghreifftiau yn unig yw'r rhain gan y gall rolau/teitlau Swyddi, tasgau a gweithgareddau amrywio ar draws sefydliadau
Arbenigwr Rolau Swydd Enghreifftiol:- Y rhai sy'n ymarfer neu'n arwain cynllunio'r gweithlu strategol e.e. Rolau Arweiniol Strategol, Arweinydd Trawsnewid.	• Arwain datblygiad cynlluniau gweithlu strategol a system gyfan. • Dangos dealltwriaeth a gwybodaeth arbenigol o'r broses cynllunio'r gweithlu strategol ar draws y sefydliad ac ar draws y system ehangach. • Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ehangach ym maes Cynllunio'r Gweithlu a chefnogi eraill i feithrin gallu ym maes Sgiliau Cynllunio'r Gweithlu. • Archwilio ac asesu'r potensial ar gyfer cydweithio â rhanddeiliaid ar draws y system ehangach i gefnogi cynllunio'r gweithlu strategol. • Dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth gymhleth yn feirniadol yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu strategol. • Nodi a gwerthuso'r grymoedd ar gyfer newid a fydd yn dylanwadu ar ofynion y gweithlu yn y tymor hwy i fodloni nodau strategol y sefydliad. • Dadansoddi'n feirniadol ganlyniadau posibl gwneud penderfyniadau wrth ddatblygu cynllun gweithlu strategol o fewn system. • Arwain ar sefydlu amodau i'r gweithlu fyfyrrio, ysgogi, dysgu, gwella'n barhaus ac arloesi yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu strategol. • Arwain ar welliant parhaus yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu strategol.



3. Cymwyseddau

Pwrrpas

- Disgrifio'r cyfuniad o ymddygiadau a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cynllunio'r gweithlu effeithiol yn awr ac yn y dyfodol.

Cymhwysiad

- Cefnogi hunanasesu ar gyfer cynllunwyr gweithlu a'r rhai sy'n ymarfer, cefnogi a/neu arwain cynllunio'r gweithlu i nodi eu galluedd presennol a'u hanghenion dysgu ar gyfer datblygiad parhaus mewn cynllunio'r gweithlu.
- Cefnogi'r rhai sy'n gyfrifol am, neu sy'n arwain, cynllunio'r gweithlu strategol i fapio gallu presennol. Nodi bylchau posibl yng ngalluedd unigolion/timau i gefnogi cynlluniau datblygu ar gyfer cynyddu sgiliau cynllunio'r gweithlu.

Ystyriaethau allweddol

1. Mae'r cymwyseddau yn cynnwys 8 dangosydd unigol, pob un wedi'i glystyru o dan lefel i gynorthwyo'r defnyddiwr i adnabod yr anghenion datblygu.
2. Mae'n afrealistig ac yn anghyraeddadwy i unrhyw unigolyn neu aelod o dîm fod yn esiampl dda ar draws pob maes. Fodd bynnag, gall pawb adeiladu ar eu meysydd cryfder, mynd i'r afael â galluedd llai datblygedig, a gwella eu heffeithiolrwydd cyffredinol wrth gynllunio'r gweithlu a fydd yn cefnogi dull tîm cyfan o gynllunio'r gweithlu.
3. Mae gorgyffwrdd naturiol a synergedd yn bodoli rhwng cymwyseddau; fodd bynnag, mae pob lefel yn unigryw, ac mae pob un yr un mor berthnasol wrth feithrin gallu wrth gynllunio'r gweithlu.
4. Er bod y fframwaith yn anelu at fod yn gynhwysfawr, nid yw'n ymarferol ymdrin â phob nodwedd ddymunol. Y nod yn hytrach yw rhoi ffocws a phwyslais ar y meysydd sy'n gwahaniaethu'n fwyaf arwyddocaol rhwng lefel cynllunio'r gweithlu.



Sylfaen

Ar gyfer pwy mae hwn - Y rhai sy'n cefnogi neu'n ymgymryd â chynllunio'r gweithlu o fewn eu rôl e.e., Rheolwr Gwasanaeth, Cynghorydd AD, Cynlluniwr Prosiect

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
1. Arweinyddiaeth	Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes cynllunio'r gweithlu	Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu
	Deall arweinyddiaeth dosturiol yng nghydestun cynllunio'r gweithlu	Deall egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol
	Gallu cefnogi gwaith tîm effeithiol	Cefnogi nodau'r tîm
2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Iaith ymraeg	Deall gofynion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a'r Gymraeg mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu	- Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu - Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi gofynion Safonau'r Gymraeg wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu
3. Cyfathrebu a pherthnasoedd gwaith effeithiol	Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn y gweithle mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu	- Disgrifio sut mae cyfathrebu effeithiol yn creu argraff gadarnhaol o'r sefydliad i randdeiliaid - Disgrifio effaith cyfathrebu gwael ar sefydliad o ran cynllunio'r gweithlu
	Datblygu perthnasoedd gwaith gyda rhanddeiliaid	Datblygu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid a chydweithwyr i gefnogi cynllunio'r gweithlu
	Deall modelau, systemau a phrosesau cyfathrebu busnes i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Penderfynu ar y dull cyfathrebu priodol i gefnogi cynllunio'r gweithlu

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
4. Deall Cyd-destun cynllunio'r gweithlu yn y Sefydliad	Nodi a gwerthuso grymoedd ar gyfer newid a allai effeithio ar y gweithlu	Nodi pwysau allanol a mewnol a ffactorau sy'n dylanwadu ar gynllunio'r gweithlu
	Nodi ac asesu gofynion gweithlu posibl sefydliad yn y dyfodol	Nodi gofynion gweithlu posibl yn y dyfodol (e.e. galw cynyddol am wasanaethau yn ei dîm ei hun)
5. Sgiliau Cynllunio'r gweithlu	Deall sut mae cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig â chynllunio strategol	Deall pam ei bod yn bwysig bod cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig ag amcanion busnes
	Paratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth	Cyfrannu at baratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth
	Deall y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu cynllun gweithlu	Deall y llinellau cyfrifoldeb/proses gwneud penderfyniadau yn ei sefydliad
	Deall ystyr, cwrdd a phwysigrwydd cynllunio'r gweithlu mewn sefydliadau	Deall sut i gyfrannu at nodi cwrdd cynllunio'r gweithlu
	Asesu cyflenwad a galw'r gweithlu	Cyfrannu at asesu cyflenwad a galw'r gweithlu i gefnogi cynllunio'r gweithlu
	Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau i ddarparu adnoddau pobl ar gyfer ei sefydliad	Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynllun gweithlu ar gyfer ei dîm
6. Defnyddio Data	Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Nodi ffynonellau gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu.
	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Chwilio a chael gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu - Gwirio bod y data a'r wybodaeth yn addas ar gyfer cynllunio'r gweithlu

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
7. Rheoli Newid	Gwybod sut i wneud newidiadau i'w ymarfer ei hun i wella gwasanaeth	Gwybod sut i wneud newidiadau i wella ei faes ei hun
	Gallu gweithredu a monitro cynllun gweithlu	Gweithredu newid yn ei faes ei hun
8. Gwellu Gwasanaeth	Nodi a gwerthuso cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella	- Cyfrannu at wella gwasanaethau. - Nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella trwy gydweithio â chydweithwyr ac aelodau tîm



Canolradd

Ar gyfer pwy mae hwn - Y rhai sy'n ymarfer, neu'n rheoli cynllunio'r gweithlu mewn adran neu wasanaeth e.e. Cynlluniwr Gweithlu, Rheolwr Cynllunio'r Gweithlu, Partner Busnes, Rheolwr Adran

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
1. Arweinyddiaeth	Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes cynllunio'r gweithlu	- Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu - Cyfrannu at wybodaeth a datblygiad eraill mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu
	Gallu hyrwyddo ac ymgorffori arweinyddiaeth dosturiol yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu	Deall a gallu cefnogi pobl trwy egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol
	Gallu cefnogi gwaith tîm effeithiol	Cefnogi nodau'r tîm/adran
2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Iaith Gymraeg	Deall cydraddoldeb ac amrywiaeth, cynhwysiant a Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu	- Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu - Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei dîm ei hun - Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi gofynion Safonau'r Gymraeg wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu
3. Cyfathrebu a pherthnasoedd gwaith effeithiol	Gallu diffinio pwrpas a chwmpas cynlluniau gweithlu strategol	- Cwblhau dadansoddiad rhanddeiliaid - Cyfrannu at ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â datblygu cynllun y gweithlu

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
	Datblygu perthnasoedd gwaith gyda rhanddeiliaid	- Archwilio ac asesu'r potensial ar gyfer cydweithio a chychwyn a datblygu perthnasoedd gweithio cydweithredol - Datblygu a chynnal trefniadau cydberthnasau gwaith cydweithredol, ac adolygu a gwerthuso cydweithio i gefnogi cynllunio'r gweithlu
	Deall modelau, systemau a phrosesau cyfathrebu busnes i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Dadansoddi anghenion cyfathrebu rhanddeiliaid mewnol ac allanol - Egluro'r ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio a strwythuro cyfryngau cyfathrebu i gefnogi cynllunio'r gweithlu
4. Cyd-destun Cynllunio'r gweithlu yn y Sefydliad	Nodi a gwerthuso'r grymoedd ar gyfer newid a allai effeithio ar gynllunio'r gweithlu	Nodi a dadansoddi pwysau allanol a mewnol sy'n dylanwadu ar gynllunio'r gweithlu sefydliadol
	Nodi ac asesu gofynion gweithlu posibl sefydliad yn y dyfodol (e.e. cynnydd yn y galw am wasanaethau)	Asesu gofynion gweithlu posibl sefydliad yn y dyfodol
5. Sgiliau Cynllunio'r Gweithlu	Deall sut mae cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig â chynllunio strategol	- Egluro pam ei bod yn bwysig bod cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig ag amcanion busnes - Egluro sut mae gwybodaeth am strategaethau sefydliad yn cyfrannu at gynllunio'r gweithlu
	Paratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth	- Cyfrannu at baratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth . - Egluro manteision cynllunio'r gweithlu i'r sefydliad
	Deall y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu cynllun gweithlu	Deall y trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer datblygu cynllun gweithlu
	Deall ystyr, cwmpas a phwysigrwydd cynllunio'r gweithlu mewn sefydliadau	Nodi amcanion cyffredinol cynllunio'r gweithlu a nodi cwmpas y cynllun
	Gwybod sut i asesu Cyflenwad a Galw'r gweithlu	Egluro pwysigrwydd asesu cyflenwad y gweithlu

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
		- Egluro sut y gellir sefydlu cyflenwad gweithlu gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol . - Asesu cyflenwad a galw'r gweithlu
	Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau i ddarparu adnoddau pobl ar gyfer ei sefydliad	Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynllun gweithlu ar gyfer ei adran
6. Defnyddio Data	Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth
	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Casglu a dilysu data a gwybodaeth - Dadansoddi data a gwybodaeth a chyflwyno allbwn dadansoddi
7. Rheoli Newid	Gwybod sut i wneud newidiadau i wella gwasanaeth trwy gynllunio'r gweithlu	- Gwybod sut i wneud newidiadau i wella gwasanaeth o fewn ei dîm/maes ei hun - Derbyn yr angen am newid gan aelodau tîm a rhanddeiliaid - Egluro'r angen am newid
	Gallu cynllunio gweithredu newid	- Gweithredu newid yn ei faes ei hun - Monitro ac adolygu gweithrediad cynllun gweithlu
8. Gwella Gwasanaeth	Cyfrannu at wella gwasanaethau	- Dylanwadu ar wella gwasanaethau trwy ledaenu arfer da - Sgiliau Rheoli Prosiect
	Nodi a gwerthuso cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella	Nodi syniadau newydd posibl mewn cydweithrediad ag arbenigwyr allanol a sefydliadau eraill



Ymarferydd

Ar gyfer pwy mae hwn - Y rhai sy'n ymarfer ac sydd â chyfrifoldeb am arweinyddiaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu mewn sefydliad e.e. Uwch Reolwr Cynllunio'r Gweithlu, Pennaeth Cynllunio'r Gweithlu

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
1. Arweinyddiaeth	Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes cynllunio'r gweithlu	- Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu - Hyrwyddo datblygiad gwybodaeth a sgiliau pobl eraill wrth gynllunio'r gweithlu
	Gallu hyrwyddo ac ymgorffori arweinyddiaeth dosturiol yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu	Modelu arweinyddiaeth dosturiol a chefnogi eraill i ddatblygu sgiliau arwain tosturiol
	Gallu cefnogi gwaith tîm effeithiol	- Monitro perfformiad unigolion a thimau a thueddiadau o ran bodloni timau a nodau a gweledigaeth sefydliadol i gefnogi cynllunio'r gweithlu - Cefnogi nodau'r tîm ar gyfer gwaith tîm effeithiol wrth gyflwyno gwasanaethau
2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Iaith Gymraeg	Deall gofynion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a'r Gymraeg yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu	- Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu - Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei faes cyfrifoldeb ei hun - Sicrhau gofynion cynllunio'r gweithlu Safonau'r Gymraeg
3. Cyfathrebu a pherthnasoedd gwaith effeithiol	Gallu diffinio pwrpas a chwmpas cynlluniau gweithlu strategol	Cwblhau dadansoddiad rhanddeiliaid

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
		Ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi gwybod iddynt am gwmpas cynllun y gweithlu
	Datblygu perthnasoedd gwaith gyda rhanddeiliaid	- Archwilio ac asesu'r potensial ar gyfer cydweithio a chychwyn a datblygu perthnasoedd gweithio cydweithredol - Datblygu a chynnal trefniadau cydberthnasau gwaith cydweithredol mewnol ac allanol, ac adolygu a gwerthuso cydweithio i gefnogi cynllunio'r gweithlu
	Deall modelau, systemau a phrosesau cyfathrebu busnes i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Egluro'r ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio a strwythuro cyfryngau cyfathrebu i gefnogi cynllunio'r gweithlu - Sgiliau ymgynghori, deall sut i weithredu dull ymgynghori wrth ymgysylltu â chydweithwyr, cael cefnogaeth, ategiad a darpariaeth
4. Cyd-destun Cynllunio'r Gweithlu yn y Sefydliad	Nodi a gwerthuso grymoedd ar gyfer newid a allai effeithio ar y gweithlu (e.e., pethau sy'n digwydd y tu mewn a'r tu allan i'w sefydliad a fydd yn effeithio ar ei swydd neu weithle, fel technoleg)	Nodi a dadansoddi'r ffyrdd y gall y grymoedd allanol a mewnol ar gyfer newid ddylanwadu ar gynllunio'r gweithlu
	Gallu asesu gofynion gweithlu posibl sefydliad yn y dyfodol	Archwilio amrywiaeth o senarios sydd â'r potensial i effeithio ar gyflenwad a galw'r gweithlu
5. Sgiliau Cynllunio'r Gweithlu	Deall sut mae cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig â chynllunio strategol	- Dadansoddi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu a strategaethau ac amcanion trefnu - Egluro pwysigrwydd cysylltu cynllunio'r gweithlu ag amcanion busnes
	Paratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth	Asesu manteision cynllunio'r gweithlu mewn sefydliad

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
		Mapio'r amgylchedd y mae ei sefydliad yn gweithredu ynddo
	Deall y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu cynllun gweithlu	Egluro'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer datblygu cynllun gweithlu
	Deall ystyr, cwmpas a phwysigrwydd cynllunio'r gweithlu mewn sefydliadau	Nodi amcanion cyffredinol cynllunio'r gweithlu a phennu 'cwmpas' cynllun gweithlu
	Asesu cyflenwad a galw'r gweithlu	- Dadansoddi'r pwysau mewnol ac allanol sy'n dylanwadu ar gynllunio'r gweithlu sefydliadol . - Gwerthuso pwysigrwydd rhagweld galw a chyflenwad y gweithlu - Egluro sut y gellir sefydlu galw a chyflenwad y gweithlu gan ddefnyddio dull meintiol ac ansoddol - Egluro pwysigrwydd gwybodaeth am y farchnad lafur wrth ddadansoddi cyflenwad y gweithlu
	Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau i ddarparu adnoddau pobl ar gyfer ei sefydliad	Datblygu a gweithredu cynllun gweithlu ar gyfer y sefydliad
6. Defnyddio Data	Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth - Cael ac archwilio setiau data priodol sy'n dangos sefyllfa bresennol y gweithlu
	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Casglu a dilysu data a gwybodaeth - Dadansoddi data a gwybodaeth a chyflwyno allbwn dadansoddi

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
7. Rheoli Newid	Gwybod sut i wneud newidiadau i wella gwasanaeth trwy gynllunio'r gweithlu	- Datblygu cynlluniau gweithlu i gefnogi newid gwasanaethau - Arwain newid - Rheoli newid
	Gallu dogfennu a monitro canlyniadau cynllun gweithlu strategol	- Rhoi newid ar waith i gefnogi cynllunio'r gweithlu - Rheoli Prosiect/Rheoli Rhaglen - Monitro ac adolygu gweithrediad cynllun gweithlu
8. Gwellu Gwasanaeth	Nodi a gwerthuso cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu	- Dylanwadu ar wella gwasanaethau trwy ledaenu arfer da - Monitro tueddiadau a datblygiadau yn amgylchedd gweithredu ei sefydliad - Monitro perfformiad ei sefydliadau, gwasanaethau a phrosesau - Meincnodi gwasanaethau ei sefydliad gyda sefydliadau tebyg



Arbenigwr

Ar gyfer pwy mae hwn - Y rhai sy'n arwain cynllunio'r gweithlu strategol e.e. Rolau Arweiniol Strategol, Arweinydd Trawsnewid.

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
1. Arweinyddiaeth	Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes cynllunio'r gweithlu	- Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu - Arwain ar ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ar draws y sefydliad wrth gynllunio'r gweithlu
	Gallu hyrwyddo ac ymgorffori arweinyddiaeth dosturiol yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu	Modelu ac ymgorffori sgiliau arwain tosturiol
	Gallu arwain ar ddatblygu gwaith cefnogol, effeithiol, o fewn a rhwng tîm	- Arwain ar ddatblygu gweledigaeth a nodau clir a rennir ar gyfer y gwasanaeth - Monitro perfformiad unigolion a thimau a thueddiadau o ran bodloni nodau a gweledigaeth y timau a'r sefydliadau yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu
2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Iaith Gymraeg	Gallu arwain ar wreiddio ymagweddau at gydraddoldeb ac amrywiaeth, cynhwysiant a Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu	- Arwain ar ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) wrth ddatblygu ymarfer - Sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn cwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
3. Cyfathrebu a pherthnasoedd gwaith effeithiol	Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn y gweithle mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu	- Cwblhau dadansoddiad rhanddeiliaid - Ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi gwybod iddynt am gwmpas cynllun y gweithlu - Cynnal dadansoddiad cyflwr cyfredol gyda rhanddeiliaid
	Datblygu perthnasoedd gwaith gyda rhanddeiliaid	- Archwilio ac asesu'r potensial ar gyfer cydweithio a chychwyn a datblygu perthnasoedd gweithio cydweithredol - Datblygu a chynnal trefniadau cydberthnasau gwaith cydweithredol ac adolygu a gwerthuso cydweithio i gefnogi cynllunio'r gweithlu - Datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid mewnol ac allanol
	Deall modelau, systemau a phrosesau cyfathrebu busnes i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Sgiliau ymgynghori, deall sut i weithredu dull ymgynghori wrth ymgysylltu â chydweithwyr, cael cefnogaeth, ategiad a darpariaeth
4. Cyd-destun Cynllunio'r Gweithlu yn y Sefydliad	Nodi a gwerthuso grymoedd ar gyfer newid a allai effeithio ar y gweithlu	Nodi a dadansoddi'r ffyrdd y mae'r grymoedd allanol a mewnol ar gyfer newid yn effeithio ar gyfeiriad strategol y sefydliad a sut y gall hyn ddylanwadu ar gynllunio'r gweithlu
	Gallu asesu gofynion gweithlu posibl sefydliad yn y dyfodol	Nodi a gwerthuso ystod o senarios a allai effeithio ar y gweithlu
5. Sgiliau Cynllunio'r gweithlu	Deall sut mae cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig â chynllunio strategol	- Dadansoddi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu a strategaethau ac amcanion trefnu - Dadansoddi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu'r sefydliad a strategaethau system gyfan
	Paratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth	Mapio'r amgylchedd y mae ei sefydliad yn gweithredu ynddo

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
		Egluro manteision a chyfyngiadau cynllunio'r gweithlu i'r sefydliad
	Deall y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu cynllun gweithlu	Defnyddio dull rheoli rhaglen gyda threfniadau llywodraethu priodol wrth ddatblygu cynllun gweithlu strategol
	Deall ystyr, cwmpas a phwysigrwydd cynllunio'r gweithlu mewn sefydliadau	Nodi pwrpas a chwmpas cynllun y gweithlu yn seiliedig ar anghenion y sefydliad neu'r gwasanaeth
	Asesu cyflenwad a galw'r gweithlu	- Adolygu a gwerthuso'r dalent a'r piblinellau cynllunio olyniaeth ar gyfer y sefydliad - Adolygu a gwerthuso'r farchnad lafur allanol fel ateb i ddiffyg posibl yn y gweithlu - Gwerthuso'r cyflenwad gweithlu mewnol ac allanol yn erbyn anghenion sefydliadau - Ymgynghori â rhanddeiliaid ar ganfyddiadau dadansoddi bylchau a chytuno ar flaenoriaethau cynllunio'r gweithlu
	Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau i ddarparu adnoddau pobl ar gyfer eich sefydliad	- Datblygu a gweithredu cynllun gweithlu strategol - Ysgrifennu crynodeb gweithredol o'r cynllun gweithlu strategol
6. Defnyddio Data	Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	- Gallu cynllunio cipio, coladu a threfnu data i lywio cynllunio'r gweithlu mewn sefydliad - Gwerthuso manteision a chyfyngiadau mesurau ystadegol a ddefnyddir wrth gynllunio'r gweithlu
	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Cael ac archwilio setiau data priodol sy'n dangos sefyllfa bresennol y gweithlu

Dangosydd	Cymwyseddau	Mae'r dysgwr angen gallu
7. Rheoli Newid	Gwybod sut i wneud newidiadau i wella gwasanaeth trwy gynllunio'r gweithlu	- Datblygu cynlluniau gweithlu strategol i gefnogi darparu gwasanaethau - Arwain newid - Rheoli newid
	Gallu gweithredu a monitro cynllun gweithlu	- Rhoi newid ar waith drwy gynllunio'r gweithlu - Sefydlu system i fonitro ac adolygu gweithrediad cynllun gweithlu - Rheoli Prosiect/Rheoli Rhaglen
8. Gwella Gwasanaeth	Rheoli gwelliant parhaus eich sefydliad yng nghyd-destun Cynllunio'r Gweithlu Strategol	- Cynnwys cydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol wrth reoli gwelliant parhaus trwy gynllunio'r gweithlu - Gwerthuso'n feirniadol effaith ffyrdd newydd o weithio - Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir yn barhaus i nodi problemau ac atebion creadigol, gan flaenoriaethu meysydd ar gyfer newid - Meincnodi gwasanaethau ei sefydliad gyda sefydliadau tebyg .



4. Cysylltu â ni

Gobeithiwn fod y ddogfen hon wedi bod yn ddefnyddiol i chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni yn HEIW.WorkforcePlanning@wales.nhs.uk neu ewch i'n gwefan <https://aagic.gig.cymru/gweithlu/cynllunio-gweithlu/>

References:-

[CIPD – Strategic Workforce Planning](#)

[Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol Gwella](#)

[Offer, Adnoddau a Chanllawiau Cynllunio'r Gweithlu AaGIC](#)

[Academi Gwelliant Cymru](#)

[Llyfrgell adnoddau Gwelliant Cymru](#)

[National Occupational Standards site](#)

[Fframwaith Gallu Digidol GIG Cymru](#)

[Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Ymarfer Clinigol Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol yng Nghymru ar gyfer Ymgynghori](#)

[Skills for Health Workforce Planning Competence](#)

Atodiad 1 Matrics Cymhwysedd

Dangosydd/Colofn	Disgrifiad	Cymhwysedd	Sylfaen	Canolradd	Ymarferydd	Arbenigwr
			Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu
1. Arweinyddiaeth	Mae arweinyddiaeth dosturiol yng nghydestun cynllunio'r gweithlu yn golygu canolbwyntio ar berthnasoedd a lles drwy gydol y broses o ddatblygu a gweithredu cynllun gweithlu; ac wrth gefnogi ac ymgysylltu â phobl i ddod o hyd i atebion a rennir i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gweithlu cynaliadwy	1.1 Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes cynllunio'r gweithlu	Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu	Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu	Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu	Datblygu ei wybodaeth ei hun mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu
				Cyfrannu at wybodaeth a datblygiad eraill mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu	Hyrwyddo datblygiad sgiliau gwybodaeth pobl eraill mewn sgiliau cynllunio'r gweithlu	Arwain ar ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ar draws y sefydliad wrth gynllunio'r gweithlu
		1.2 Deall arweinyddiaeth dosturiol yng nghydestun cynllunio'r gweithlu	Deall egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol	Deall a gallu cefnogi pobl trwy egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol	Modelu arweinyddiaeth dosturiol a chefnogi eraill i ddatblygu sgiliau arwain tosturiol	Modelu ac ymgorffori sgiliau arwain tosturiol
		1.3 Gwaith tîm i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Cefnogi nodau'r tîm	Cefnogi nodau timau/adrannau	Monitro perfformiad unigolion a thimau a thueddiadau o ran bodloni timau a nodau a gweledigaeth sefydliadol i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Arwain ar ddatblygu gweledigaeth a nodau clir a rennir ar gyfer y gwasanaeth yng nghydestun cynllunio'r gweithlu
					Cefnogi nodau'r tîm ar gyfer gwaith tîm effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau	Monitro perfformiad unigolion a thimau a thueddiadau o ran bodloni nodau a gweledigaeth y timau a'r sefydliadau yng nghydestun cynllunio'r gweithlu

Dangosydd/Colofn	Disgrifiad	Cymhwysedd	Sylfaen	Canolradd	Ymarferydd	Arbenigwr
			Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu
2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Iaith Gymraeg	Wrth ddatblygu eich cynlluniau gweithlu, bydd angen i chi ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ochr yn ochr â'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen, ar gyfer eich gweithlu presennol a'ch gweithlu yn y dyfodol. Wrth ddatblygu cynllun gweithlu dylech geisio deall, rhagweld a chynllunio i ddiwallu anghenion y boblogaeth yr ydych yn ei gwasanaethu	2.1 Deall gofynion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a'r Gymraeg yng nghydestun cynllunio'r gweithlu	Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu	Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu	Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu	Arwain ar ymgorffori egwyddorion EDI wrth ddatblygu ymarfer
			Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi gofynion Safonau'r Gymraeg wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu	Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei faes cyfrifoldeb ei hun	Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei faes cyfrifoldeb ei hun	Sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg
				Sicrhau bod ei weithredoedd ei hun yn cefnogi gofynion Safonau'r Gymraeg wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu	Sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg	
3. Cyfathrebu a pherthnasoedd gwaith effeithiol	Er mwyn i gynllun fod yn llwyddiannus, mae mewnbyn gan randdeiliaid yn hanfodol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae ymgysylltu hefyd yn gofyn am ddefnyddio cyfathrebu effeithiol, mapio rhanddeiliaid ac adeiladu a chynnal perthnasoedd ystyrlon	3.1 Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn y gweithle mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu	Disgrifio sut mae cyfathrebu effeithiol yn creu argraff gadarnhaol o'r sefydliad i randdeiliaid	Cwblhau dadansoddiad rhanddeiliaid	Cwblhau dadansoddiad rhanddeiliaid	Cwblhau dadansoddiad rhanddeiliaid
			Disgrifio effaith cyfathrebu gwael ar sefydliad o ran cynllunio'r gweithlu	Cyfrannu at ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â datblygu cynllun y gweithlu	Ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi gwybod iddynt am gwmpas cynllun y gweithlu	Ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi gwybod iddynt am gwmpas cynllun y gweithlu
						Cynnal dadansoddiad cyflwr cyfredol gyda rhanddeiliaid

Dangosydd/Colofn	Disgrifiad	Cymhwysedd	Sylfaen	Canolradd	Ymarferydd	Arbenigwr
			Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu
		3.2 Datblygu perthnasoedd gwaith gyda rhanddeiliaid	Datblygu perthnasoedd cynhyrchol gyda rhanddeiliaid a chydweithwyr i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Archwilio ac asesu'r potensial ar gyfer cydweithio a chychwyn a datblygu perthnasoedd gweithio cydweithredol	Archwilio ac asesu'r potensial ar gyfer cydweithio a chychwyn a datblygu perthnasoedd gweithio cydweithredol	Archwilio ac asesu'r potensial ar gyfer cydweithio a chychwyn a datblygu perthnasoedd gweithio cydweithredol ar draws system
				Datblygu a chynnal trefniadau cydberthnasau gwaith cydweithredol ac adolygu a gwerthuso cydweithio i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Datblygu a chynnal trefniadau cydberthnasau gwaith cydweithredol mewnol ac allanol ac adolygu a gwerthuso cydweithio i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Datblygu a chynnal trefniadau cydberthnasau gwaith cydweithredol ac adolygu a gwerthuso cydweithio i gefnogi cynllunio'r gweithlu
						Datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid mewnol ac allanol
	3.3 Deall modelau, systemau a phrosesau cyfathrebu busnes i gefnogi cynllunio'r gweithlu		Penderfynu ar y dull cyfathrebu priodol i'w ddefnyddio i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Dadansoddi anghenion cyfathrebu rhanddeiliaid mewnol ac allanol	Egluro'r ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio a strwythuro cyfryngau cyfathrebu i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Sgiliau ymgynghori, deall sut i roi dull ymgynghori ar waith wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol, cael cefnogaeth, ategiad a darpariaeth
				Egluro'r ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio a strwythuro cyfryngau cyfathrebu i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Sgiliau ymgynghori, deall sut i weithredu dull ymgynghori wrth ymgysylltu â chydweithwyr, cael cefnogaeth, ategiad a darpariaeth	Datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Dangosydd/Colofn	Disgrifiad	Cymhwysedd	Sylfaen	Canolradd	Ymarferydd	Arbenigwr
			Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu
4. Deall Cyd-destun Cynllunio'r Gweithlu yn y Sefydliad	Mae deall y cyd-destun y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn hanfodol wrth ddatblygu cynllun gweithlu. Mae hyn er mwyn deall yn llawn y materion allanol a mewnol sy'n effeithio ar y sefydliad, gan ganiatáu i chi sylwi ar gyfleoedd a chryfderau, tueddiadau a bygythiadau neu wendidau a all effeithio ar gyflenwad a galw'r gweithlu yn y tymor byr a'r hirdymor	4.1 Nodi a gwerthuso grymoedd ar gyfer newid a allai effeithio ar y gweithlu (e.e., pethau sy'n digwydd y tu mewn a'r tu allan i'w sefydliad a fydd yn effeithio ar ei swydd neu weithle, fel technoleg)	Nodi pwysau allanol a mewnol a ffactorau sy'n dylanwadu ar gynllunio'r gweithlu	Nodi a Dadansoddi pwysau allanol a mewnol a ffactorau sy'n dylanwadu ar gynllunio'r gweithlu sefydliadol	Nodi a dadansoddi'r ffyrdd y mae'r grymoedd allanol a mewnol ar gyfer newid yn effeithio ar gyfeiriad strategol y sefydliadau a sut y gall hyn ddylanwadu ar gynllunio'r gweithlu	Nodi a dadansoddi'r ffyrdd y mae'r grymoedd allanol a mewnol ar gyfer newid yn effeithio ar gyfeiriad strategol y sefydliadau a sut y gall hyn ddylanwadu ar gynllunio'r gweithlu
		4.2 Nodi ac asesu gofynion gweithlu posibl sefydliad yn y dyfodol (e.e. cynnydd yn y galw am wasanaethau)	Gallu nodi gofynion gweithlu posibl yn y dyfodol	Gallu asesu gofynion gweithlu posibl sefydliad yn y dyfodol	Archwilio amrywiaeth o senarios a allai effeithio ar gyflenwad a galw'r gweithlu	Nodi a gwerthuso amrywiaeth o senarios a allai effeithio ar gyflenwad a galw'r gweithlu
5. Sgiliau Cynllunio'r Gweithlu	Mae cynllun gweithlu effeithiol yn sicrhau bod y staff cywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle iawn ac ar yr amser iawn i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae hefyd yn ymwneud â chael eglurder mewn meysydd fel; pwy sy'n berchen ar y cynllun, y llinellau cyfrifoldeb, pwrpas y cynllun, cwmpas y cynllun, y grwpiau staff y gallai'r cynllun effeithio arnynt a'r rhanddeiliaid perthnasol a fydd yn	5.1 Deall sut mae cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig â chynllunio strategol	Deall pam ei bod yn bwysig bod cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig ag amcanion busnes	Egluro pam ei bod yn bwysig bod cynllunio'r gweithlu yn gysylltiedig ag amcanion busnes	Dadansoddi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu a strategaethau ac amcanion trefniadaeth	Dadansoddi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu a strategaethau ac amcanion trefniadaeth
				Egluro sut mae gwybodaeth am strategaethau sefydliad yn cyfrannu at gynllunio'r gweithlu	Egluro pwysigrwydd cysylltu cynllunio'r gweithlu ag amcanion busnes	Dadansoddi'r dibyniaethau rhwng cynllunio'r gweithlu'r sefydliad a strategaethau system gyfan
		5.2 Paratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth	Cyfrannu at baratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth	Cyfrannu at baratoi ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth	Asesu manteision cynllunio'r gweithlu mewn sefydliad	Mapio'r amgylchedd y mae ei sefydliad yn gweithredu ynddo
				Egluro manteision cynllunio'r gweithlu i'r sefydliad	Mapio'r amgylchedd y mae ei sefydliad yn gweithredu ynddo	Egluro manteision a chyfyngiadau cynllunio'r gweithlu i'r sefydliad

Dangosydd/Colofn	Disgrifiad	Cymhwysedd	Sylfaen	Canolradd	Ymarferydd	Arbenigwr
			Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu
	cymryd rhan ac yn cael mewnbwn i gynllun y gweithlu	5.3 Deall y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu cynllun gweithlu	Deall y llinellau cyfrifoldeb/proses gwneud penderfyniadau yn ei sefydliad	Deall y trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer datblygu cynllun gweithlu	Egluro'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer datblygu cynllun gweithlu	Cymhwyso dull rheoli rhaglen gyda threfniadau llywodraethu priodol wrth ddatblygu cynllun gweithlu strategol
		5.4 Deall ystyr, cwpas a phwysigrwydd cynllunio'r gweithlu mewn sefydliadau	Deall sut i gyfrannu at nodi cwpas cynllun gweithlu	Nodi amcanion cyffredinol cynllunio'r gweithlu a nodi cwpas y cynllun	Nodi amcanion cyffredinol cynllunio'r gweithlu a phennu cwpas y cynllun gweithlu	Nodi pwrpas a chwmpas cynllun y gweithlu yn seiliedig ar angen y sefydliad
		5.5 Asesu cyflenwad a galw'r gweithlu	Cyfrannu at asesu cyflenwad a galw'r gweithlu i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Egluro pwysigrwydd asesu cyflenwad y gweithlu	Dadansoddi'r pwysau mewnol ac allanol sy'n dylanwadu ar gynllunio'r gweithlu sefydliadol	Adolygu a gwerthuso'r dalent a'r piblinellau cynllunio olyniaeth ar gyfer y sefydliad
				Egluro sut y gellir sefydlu cyflenwad gweithlu gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol	Gwerthuso pwysigrwydd rhagweld galw a chyflenwad y gweithlu	Adolygu a gwerthuso'r farchnad lafur allanol fel ateb i'r diffyg posibl yn y gweithlu
					Egluro sut y gellir sefydlu galw a chyflenwad y gweithlu gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol	Gwerthuso cyflenwad y gweithlu mewnol ac allanol yn erbyn anghenion sefydliadau
				Asesu cyflenwad a galw'r gweithlu	Egluro pwysigrwydd gwybodaeth am y farchnad lafur wrth ddadansoddi cyflenwad y gweithlu	Ymgynghori â rhanddeiliaid ar ganfyddiadau dadansoddi bylchau a chytuno ar flaenoriaethau cynllunio'r gweithlu
		5.6 Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau i ddarparu adnoddau pobl ar gyfer eich sefydliad	Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynllun gweithlu ar gyfer y tîm	Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynllun gweithlu ar gyfer yr adran	Datblygu a gweithredu cynllun gweithlu ar gyfer y sefydliad	Datblygu a gweithredu cynllun gweithlu strategol
						Ysgrifennu crynodeb gweithredol o'r cynllun gweithlu strategol

Dangosydd/Colofn	Disgrifiad	Cymhwysedd	Sylfaen	Canolradd	Ymarferydd	Arbenigwr
			Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu
6. Defnyddio Data	Mae dadansoddeg gweithlu yn cynnwys casglu, coladu a dadansoddi data gweithlu perthnasol i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol ar sail tystiolaeth wrth ddatblygu eich cynllun	6.1 Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Nodi ffynonellau gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth	Nodi ac amlinellu gofynion data a gwybodaeth	Gallu cynllunio cipio, coladu a threfnu data i lywio cynllunio'r gweithlu mewn sefydliad
					Cael ac archwilio setiau data priodol sy'n dangos sefyllfa bresennol y gweithlu	Gwerthuso manteision a chyfyngiadau mesurau ystadegol a ddefnyddir wrth gynllunio'r gweithlu
		6.2 Casglu, dadansoddi a chyflwyno data a gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Chwilio a chael gwybodaeth i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Casglu a dilysu data a gwybodaeth	Casglu a dilysu data a gwybodaeth	Cael ac archwilio setiau data priodol sy'n dangos sefyllfa bresennol y gweithlu
			Gwiro bod y data a'r wybodaeth yn addas ar gyfer cynllunio'r gweithlu	Dadansoddi data a gwybodaeth a chyflwyno allbwn dadansoddi	Dadansoddi data a gwybodaeth a chyflwyno allbwn dadansoddi	
7. Rheoli Newid	Er mwyn rheoli newid yn effeithiol, mae'n bwysig bod gennych ddealltwriaeth lawn o gyflwr presennol y sefydliad a'i gyflwr arfaethedig ar gyfer y dyfodol. Bydd y ddealltwriaeth hon yn sicrhau bod cynllun y gweithlu yn cyd-fynd ag anghenion sefydliadau'r dyfodol a'r newid sydd i'w ymgorffori	7.1 Gwybod sut i wneud newidiadau i wella gwasanaeth trwy gynllunio'r gweithlu	Gwybod sut i wneud newidiadau i wella ei faes ei hun	Gwybod sut i wneud newidiadau i wella gwasanaeth o fewn ei dîm/faes ei hun	Datblygu cynlluniau gweithlu strategol i gefnogi newid gwasanaethau	Datblygu cynlluniau gweithlu strategol i gefnogi darparu gwasanaethau
				Derbyn yr angen i newid gan aelodau tîm a rhanddeiliaid	Rheoli newid	Rheoli newid
				Egluro'r angen am newid	Arwain newid	Arwain newid
		7. Gallu gweithredu a monitro cynllun gweithlu	Gweithredu newid yn ei faes ei hun	Gweithredu newid yn ei faes ei hun	Gweithredu newid i gefnogi cynllunio'r gweithlu	Rhoi newid ar waith drwy gynllunio'r gweithlu
				Monitro ac adolygu gweithrediad cynllun gweithlu	Rheoli Prosiect/Rheoli Rhaglen	Sefydlu system i fonitro ac adolygu gweithrediad cynllun gweithlu
					Monitro ac adolygu gweithrediad cynllun gweithlu	Rheoli Prosiect/Rheoli Rhaglen

Dangosydd/Colofn	Disgrifiad	Cymhwysedd	Sylfaen	Canolradd	Ymarferydd	Arbenigwr
			Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu	Mae'r dysgwr angen gallu
8. Gwella Gwasanaeth	Mae gan bob cynllun ei ganlyniadau bwriadedig neu ddymunol. Mae amser, cyllid a'r gweithlu sydd ar gael i gyd yn adnoddau cyfyngedig, felly mae'n hanfodol bod pob cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso'n effeithlon er mwyn helpu i benderfynu a yw'r canlyniadau'n gyraeddadwy a, lle bo'r angen, addasiadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod y cynllun ar y trywydd iawn	8.1 Nodi a gwerthuso cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella yng nghydestun cynllunio'r gweithlu	Cyfrannu at wella gwasanaethau	Dylanwadu ar wella gwasanaethau trwy ledaenu arfer da	Dylanwadu ar wella gwasanaethau trwy ledaenu arfer da	Ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol wrth reoli gwelliant parhaus trwy gynllunio'r gweithlu
			Nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella trwy gydweithio â chydweithwyr ac aelodau tîm	Sgiliau Rheoli Prosiect	Monitro tueddiadau a datblygiadau yn amgylchedd gweithredu ei sefydliad	Gwerthuso'n feirniadol effaith ffyrdd newydd o weithio
				Nodi syniadau newydd posibl mewn cydweithrediad ag arbenigwyr allanol a sefydliadau eraill	Monitro perfformiad ei sefydliadau, gwasanaethau a phrosesau	Adolygu darpariaeth gwasanaeth yn barhaus i nodi problemau ac atebion creadigol, gan flaenoriaethu meysydd ar gyfer newid
					Meincnodi gwasanaethau ei sefydliad gyda sefydliadau tebyg	Meincnodi gwasanaethau ei sefydliad gyda sefydliadau tebyg